# TAR Cynradd cyfrwng Cymraeg - 2023-2024

Annwyl ddarpar fyfyriwr,

Llongyfarchiadau ar gael eich derbyn ar y rhaglen TAR ym Met Caerdydd Rydym yn falch iawn eich bod wedi penderfynu dilyn y rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae galw mawr am athrawon yn y sector ac rydym yma i'ch cefnogi i ddatblygu eich sgiliau ieithyddol personol yn ogystal â'ch sgiliau addysgu yn ystod y flwyddyn.

Beth am ymuno gyda grŵp Whatsap gyda myfyrwyr eraill fydd yn dod ar y rhaglen ym mis Medi a chyfathrebu yn Gymraeg o'r dechrau? Dwi wedi perswadio un o'r myfyrwyr i sefydlu grŵp **Whatsap** a'i rif ffôn symudol hi ydy **07957 495 889**. Os anfonwch chi neges testun ati yna fe wnaiff hi eich ychwanegu chi at y grŵp. Grŵp i fyfyrwyr yn unig fydd hwn a fydd tiwtoriaid ddim yno i fusnesu!

Manteiswch ar bob cyfle i siarad Cymraeg. Cofrestrwch gyda Menter Caerdydd ar gyfer cael gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg yng Nghaerdydd e.e. **Tafwyl 15fed-16eg o Orffennaf 2023.** Mae mentrau eraill ar gyfer ardaloedd penodol.

Wele ar y ddwy dudalen isod syniadau am adnoddau i'ch cefnogi a rhai deunyddiau darllen addas.

Pob hwyl am y tro

Sioned

sdafydd@cardiffmet.ac.uk



Cymorth

Lawrlwythwch ap **Sgiliau Iaith Athrawon.** Gwnewch yr ymarferion sawl tro a cheisio gwella eich sgôr bob tro. Peidiwch poeni os nad ydych chi'n cael sgôr uchel i ddechrau, mae'r tasgau yn eitha heriol. Y peth pwysig ydy eich bod yn gwella bob tro a'ch bod yn gwneud cynnydd.

Lawrlwythwch **Ap Geiriaduron.**


Lawrlwythwch **Ap Treiglo**

Dysgwch sut i droi eich cyfrifiadur i fersiwn Cymraeg er mwyn ogoi: 'I' yn lle 'i' / 'Marched' yn lle 'merched' / 'Rode' yn lle 'roedd' / 'Plenty' yn lle 'plentyn' ayb…..

Dysgwch sut i ddefnydio fersiwn ar-lein **Cysill/Cysgair** neu gallwch gael trwydded am ddim i'ch cyfrifiadur drwy fynd ar y ddolen hon: https://www.cysgliad.com/en/free-licence/. (Does dim fersiwn am ddim ar gael i gyfrifiaduron Apple hyd yn hyn). Mae Cysill a Cysgair ar nifer o gyfrifiaduron y brifysgol yn y ganolfan. Pan fyddwch yn ymweld â'r ganolfan ym mis Medi cofiwch ofyn wrth y ddesg pa gyfrifiaduron sydd yn cynnwys Cysill a Cysgair.

Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi y flwyddyn nesaf. Os oes rhywbeth penodol yr ydych am ei drafod, croeso i chi gysylltu gyda fi sdafydd@cardiffmet.ac.uk





## Darllen

Os ydych chi'n gweithio mewn ysgol yn ystod y cyfnod hwn, efallai bod cyfle i chi fenthyg nofel ar gyfer plant hynaf ysgol gynradd/ plant ieuengaf ysgol uwchradd neu efallai yr hoffech chi brynu rhai o'r nofelau a awgrymir isod. Ydy eich siop leol Gymraeg yn cynnig gwasanaeth drwy'r post? (Caban ym Mhontcanna, Siop y Felin yn yr Egwys Newydd, Canolfan Soar ym Merthur Tudfil, Siop y Bont ym Mhontypridd, Vintage Cant a Mil yn Cattays.) Os nad ydyn nhw, fe allech chi fynd ar wefan Gwales.com sef safle gwerthu y Cyngor Llyfrau Cymraeg. Mae modd i chi ddarllen adolygiadau o'r nofelau cyn penderfynu eu prynu. Cofiwch hefyd am eich llyfrgell leol!

Dyma ddau awgrym am nofelau diweddar addas. Mae hwn yn gyfle da i wella eich adnoddau iaith, a gwella eich gwybodaeth pynciol am lenyddiaeth plant a mwynhau ar yr un pryd!

- Powell gan Manon Steffan Ross (ennilydd y gynulleidfa Tir na-Nog eleni)
- Manawydan Jones gan Alun Davies (ennillydd Tir na-Nog eleni)

Lawlwythwch apiau: **BBC Cymru Fyw, Golwg.360.Cymru, Newyddion** er mwyn cael penawdau newyddion a straeon cyfredol yn Gymraeg. Mae'r rhain yn fyr ac yn fachog ac yn help i ddatblygu geirfa gyfredol.

Os hoffech chi ddarllen gwaith academiadd yn y Gymraeg, ewch ar **Gwerddon** sef cyfnodolyn academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Rhifyn 26 yn arbennig o ddiddorol o safbwynt addygu plant blynyddoedd cynnar. Mae **Gwerddon Fach** sy'n brosiect ar y cyd rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Golwg hefyd yn lle da i ddarllen am astudiaethau academaidd.

Mae'n werth darllen manylion y Cwricwlwm i Gymru hefyd er mwyn, nid yn unig deall mwy am y cwricwlwm ond hefyd, er mwyn ymgyfarwyddo gyda'r iaith a'r derminoleg. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru.
Os hoffech chi ddarllen am addysgeg perthnasol i'r Gymraeg mae'r llyfryn hwn yn lle da i ddechrau https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/documents/Cymraeg-tudalen.pdf